Y Dyfrgi Penderfynol

Dysgu gwrando ar eraill / Parod i rannu

Yn y dŵr byrlymus roedd Dyfrig y Dyfrgi yn byw. Un diwrnod gofynnodd ei fam a fuasai'n mynd â brithyll llond ei groen i'w daid oedd yn byw i lawr yr afon. "Ond mam?" gofynnodd Dyfrig, "oes raid i mi fynd? Mae dŵr yr afon yn uchel iawn wrth ymyl lle mae taid yn byw ac mae'r rhaeadr yn beryglus iawn. Oes raid i mi fynd?

"Rydw i'n gwybod fod y rhaeadr yn beryglus ond mae'n rhaid i ti fynd. Fedra i ddim mynd mae'n rhaid i mi ofalu am y plant eraill. Ac mae taid yn anabl i fynd i chwilio am fwyd. Felly ffwrdd â ti, ond cymer di ofal," meddai'i fam wrtho.

I ffwrdd â Dyfrig gyda brithyll tew yn ei geg. Plymiodd i ddŵr yr afon a nofio'n gyflym i lawr yr afon. Cyrhaeddodd y rhaeadr. Roedd y dŵr yn rhedeg drosto'n gyflym. Daeth ofn mawr arno pan welodd y dŵr yn tasgu dros y dibyn. Arhosodd i wylio'r dŵr yn dymchwel drosodd. Sut roedd yn mynd i gyrraedd cartref ei daid. Beth petai'n cael ei hyrddio dros y dibyn i'r dŵr oddi tano. Aeth yn araf, araf at ymyl y rhaeadr. Pwy welai'n nofio yn y dŵr brochus islaw ond ei ewythr. Gwaeddodd ei ewythr arno o'r dŵr islaw. "Beth sy'n bod Dyfrig bach, wyt ti ofn y dŵr brochus yma?"

"Ydw," oedd ateb swta Dyfrig, "Sut ydw i yn mynd i gyrraedd cartref taid?"

"Mi hoffwn i roi cyngor i ti," gwaeddodd ei ewythr arno, "Dal ati i drio dy orau. Os nad wyt ti'n llwyddo'r tro cyntaf, dal ati i drio yr ail waith ar drydedd waith nes y byddi di wedi llwyddo."

"Diolch am eich cyngor," meddai Dyfrig.

"Ond cofia di," meddai'i ewythr wrtho. Mae yna adeg yn dod pan ddylet ti roi'r gorau iddi. Weithiau, gelli di drio'n rhy galed. Efallai bod yn well i ti roi'i fyny a chwilio am ffordd arall."

Meddyliodd Dyfrig am funud. Ond doedd o ddim yn gwybod am ffordd arall i gyrraedd cartref ei daid.

"Fedrwch chi fy helpu?" gofynnodd Dyfrig.

"Gallaf" meddai'i ewythr wrtho. "Wyddost ti beth fuaswn i wedi wneud?"
"Beth?" gofynnodd Dyfrig.
"Mi fuaswn i yn dod allan o'r dŵr a cherdded o gwmpas y rhaeadr, i lawr y cae ac yna'n syth i'r dŵr wrth ochr y graig fawr acw."
Gwrandawodd Dyfrig ar ei ewythr. Daeth allan o'r dŵr a cherddodd ar hyd y cae ac i lawr at y graig fawr. Plymiodd i'r dŵr a ffwrdd a fo am gartref ei daid a'r brithyll mawr yn dal yn ei geg.

Dysg ni o Dduw, i wybod pa bryd yr yda ni wedi methu ac i ofyn wedyn am dy gymorth di. Amen.

✦ Ydio'n beth da gofyn am gyngor gan oedolyn o dro i dro?
✦ Ydych chi wedi cael cyngor gan eich rhieni neu athrawon yn yr ysgol?